Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Equality and Human Rights Commission

Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

20 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog,

Rydym yn ysgrifennu atoch yn dilyn ein llythyrau blaenorol atoch yn ymdrin ag effaith y pandemig Covid-19 ar bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Rydym yn gwerthfawrogi ein trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru a'r wybodaeth bellach rydych wedi ei rhannu â ni.

Mae gennym bryderon difrifol am brofiadau pobl hŷn yn ystod y pandemig Covid-19, yn enwedig rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal, ac rydym wedi cytuno i weithio â'n gilydd i ystyried a yw Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran y ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac i ddiogelu hawliau dynol pobl hŷn.

Er mwyn ein helpu i ddeall eich prosesau penderfynu byddem yn ddiolchgar pe baech yn rhannu'r wybodaeth a'r dogfennau canlynol â ni:

1. Gofynnwn i chi rannu eich asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r dystiolaeth wyddonol sy'n sail i'r holl benderfyniadau a wneir yn gysylltiedig â chartrefi gofal - fel y gwelir yn yr amserlen amgaeedig.
2. Os nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, dangoswch dystiolaeth o sut y rhoddwyd sylw dyladwy i dri angen dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus – yr angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da – yn y broses benderfynu sy'n gysylltiedig â gwarchod cartrefi gofal gan

Lywodraeth Cymru.

3. Gofynnwn i chi rannu manylion â ni am y trefniadau sydd gennych ar waith i adolygu a diwygio eich polisïau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswyddau penodol.

Rydym yn croesawu'r datganiad diweddar gan y Gweinidog a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael cynllun gweithredu ac adolygiad cyflym gan arbenigwr annibynnol o brofiad gweithredol cartrefi gofal rhwng misoedd Mawrth a Mehefin. Mae'n hanfodol bod yr adolygiad cyflym yn ystyried sut y cafodd hawliau pobl hŷn eu cynnal yn ystod y cyfnod hwn. Dylai'r adolygiad ystyried hefyd a roddwyd sylw dyladwy i dri nod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau a llunio polisi.

Dylai cydraddoldeb a sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal fod yn ganolog i ddatblygiad y cynllun gweithredu ac unrhyw benderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol.

Dylai cyhoeddi cynllun gweithredu cartrefi gofal roi sylw i faterion penodol sy'n effeithio ar y sector cartrefi gofal yn awr ac yn y misoedd i ddod. Dylai'r cynllun gweithredu ddangos yn eglur y camau sy'n cael eu cymryd mewn nifer o feysydd allweddol sy'n hanfodol i warchod a chynorthwyo pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal, gan gynnwys:

- Parhau i brofi preswylwyr a staff cartrefi gofal
- Parhau i gyflenwi PPE
- Mynediad at wasanaethau gofal iechyd gan gynnwys cymorth meddygon teulu a thriniaeth mewn ysbytai
- Mynediad at gymorth iechyd meddwl (gan gynnwys cymorth mewn

profedigaeth)

- Canllawiau, gwybodaeth a chymorth i gartrefi gofal, pobl hŷn a'u teuluoedd a'u ffrindiau i alluogi ymweliadau diogel
- Mesurau i alluogi ymweliadau diogel gan weithwyr cymdeithasol, eiriolwyr eraill ac arolygon gan Arolygiaeth Gofal Cymru
- Bod mynediad at hyfforddiant a chymorth gan gymheiriaid yn parhau i reolwyr a staff cartrefi gofal
- Darparu cyfleusterau gofal dros dro / cyfleusterau camu i lawr i hwyluso gyda rhyddhad cleifion yn ddiogel o ysbytai
- Darpariaethau i gartrefi gofal i sicrhau cynaliadwyedd yn ystod y pandemig hwn

Mae'n hanfodol bod y cynllun gweithredu hwn yn cynnwys lleisiau'r rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal ac yn cynnwys atebolrwydd ac amserlenni clir i gyflawni'r camau gweithredu arfaethedig,

Byddem yn hapus i drafod y materion hyn ymhellach neu i gwrdd â chi os byddai hynny'n fuddiol i chi. Byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn 10 Awst wedi ei gyfeirio at y ddwy swyddfa.

Yn gywir

Ruth Coombs
Pennaeth y CCHD yng Nghymru

Heléna Herklots
Comisynydd Pobl Hŷn Cymru

cc: Julie Morgan AS, Y Dirpwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Amserlen Penderfyniadau Cartrefi Gofal COVID-19**

31 Ionawr 2020 Y ddau achos cyntaf yn y DU – datganiad cyntaf y Prif Swyddog Meddygol
28 Chwefror 2020 cadarnhau'r achos cyntaf o COVID-19 yng Nghymru
3 Mawrth 2020 Cynllun gweithredu ar y cyd
5 Mawrth 2020 cadarnhau'r ail achos o COVID-19 yng Nghymru
9 Mawrth 2020 cyhoeddi PPE ar gyfer Meddygon Teulu fel rhan o fesurau i reoli'r haint
13 Mawrth 2020 Datganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi symud o'r cam cyfyngu i'r cam oedi o'r cynllun gweithredu – "mae'n hollbwysig bod ein system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn barod" – prif bwyntiau cartrefi gofal -

- Cyflymu camau i ryddhau cleifion agored i niwed o ysbytai acíwt a chymunedol
- Llacio targedau a threfniadau monitro yn y system iechyd a gofal drwyddi draw
- Lleihau gofynion rheoleiddio ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal
- Cyflymu lleoliadau i gartrefi gofal drwy atal y protocol presennol sy'n rhoi'r hawl i ddewis cartref
- Caniatâd i ganslo digwyddiadau mewnol a phroffesiynol, gan gynnwys absenoldeb astudio, i ryddhau staff ar gyfer paratoadau

16 Mawrth 2020 cyhoeddi'r farwolaeth gyntaf o ganlyniad i COVID-19 yng Nghymru
17 Mawrth 2020 Gweinidog Iechyd Cymru yn datgan bod yr achosion neu drosglwyddiad y Coronafeirws newydd yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, ac yn cyflwyno rheoliadau y bernir sy'n fodd effeithiol i oedi neu atal trosglwyddo pellach ar y feirws.
18 Mawrth 2020 datganiad cyntaf y Gweinidog Iechyd ar brofi – y flaenoriaeth yng Nghymru oedd cynnal profion ar yr unigolion sy'n cael eu derbyn i'r Ysbyty. Bydd cadw gweithwyr gwasanaethau hanfodol o'r gwaith am 7/14 diwrnod yn niweidiol i'r gwasanaethau hynny, pan fyddai canlyniad prawf negyddol yn caniatáu iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Felly, yn dilyn asesiad risg gofalus, byddwn yn dechrau cyflwyno profion fesul cam, gan ddechrau gyda'r gweithwyr gofal iechyd sydd ar y rheng flaen yn cynnig gofal clinigol i gleifion. Bydd ein gallu i gynnal profion yn

cael ei ehangu, a'r rhai sy'n cael blaenoriaeth ar hyn o bryd yw'r cleifion a'r gweithwyr gofal iechyd sydd ar y rheng flaen yn cynnig gofal clinigol i gleifion

21 Mawrth 2020 Datganiad ar groesawu'n ôl cyn weithwyr iechyd a gofal a gofal proffesiynol a rhai'r dyfodol sydd eu hangen i helpu Cymru i ymateb i coronafeirws – "*Rydw i eisiau rhoi sicrwydd i'n sector gofal cymdeithasol ymroddedig ni ein bod ni'n gweithio gyda'n partneriaid allweddol i sicrhau ein bod yn gwarchod ein staff gofal cymdeithasol rheng flaen, sy'n chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi a gofalu am y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ni*."

Datganiad ar COVID-19: Dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i leoliadau gofal cymdeithasol "*Hoffwn fod yn glir ynghylch y canllawiau ar ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol ym maes gofal cymdeithasol. Os nad oes symptomau gan y gweithiwr gofal na'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth, yna nid oes angen Cyfarpar Diogelu Personol y tu hwnt i arferion hylendid da arferol."*

23 Mawrth 2020 Cyfyngiadau symud ledled y DU ac mae'r Gweinidog Iechyd yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer ymweld â chartrefi gofal ac wrth gadarnhau mai dim ond ymweliadau hanfodol ddylai gael eu caniatáu dywedasoch:

*"Ni ellir gorbwysleisio'r dasg o amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru sy'n byw yn ein cartrefi gofal a rhaid cael mesurau diogelu cadarn ar waith bob amser i leihau effeithiau difrifol Coronafeirws."*

24 Mawrth 2020 Datganiad yn cadarnhau y byddai llythyrau gwarchod yn cael eu hanfon at y bobl fwyaf agored i niwed

25 Mawrth 2020 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – cyllid ychwanegol ac iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio a datganiad arall gan y Gweinidog ar PPE yn cadarnhau y bydd ar gael i staff gofal cymdeithasol.

28 Mawrth 2020 – datganiad am brawf gwrthgorffynnau sy'n cael ei ddatblygu – bydd yn helpu staff iechyd a gofal cymdeithasol a datganiad arall ar PPE gan y Prif Swyddog Meddygol – parhau i gynghori nad oes ei angen os nad yn

gweithio â chleifion COVID-19.

2 Ebrill 2020 – Canllawiau PPE newydd wedi'u cadarnhau gan y Prif Swyddog Meddygol a datganiad gan y Gweinidog Iechyd – "Dylai pob aelod o staff iechyd a gofal cymdeithasol sydd o fewn 2m i glaf y cadarnhawyd neu yr amheuir bod coronafeirws arno wisgo ffedog, menig, masg llawfeddygol gwrth-hylif a chyfarpar diogelu'r llygaid (o'r blaen, dim ond wrth ofalu am bobl â symptomau yr oedd angen defnyddio cyfarpar diogelu personol)"

7 Ebrill 2020 – datganiad y Gweinidog Iechyd ar brofion i ganfod y rhai sydd wedi'u heintio â'r feirws ar hyn o bryd (prawf swab). Bydd hyn yn ein galluogi i flaenoriaethu gofal a gwybod pa rai o staff allweddol y rheng flaen a all ddychwelyd i'w gwaith yn gynnar, ac i ganfod y rhai sydd wedi cael COVID-19 ac sydd wedi datblygu ymateb imiwnedd (prawf gwrthgyrff)) – yn unol â strategaeth brofi'r DU

22 Ebrill 2020 "Diweddariad wythnosol" y Gweinidog Iechyd ar brofion. Mae ein gweithgarwch presennol yn y cynllun profi yn canolbwyntio ar ein gweithwyr hanfodol, cleifion â symptomau mewn ysbytai a phobl mewn cartrefi gofal. Erbyn 20 Ebrill, roedd 264 o breswylwyr cartrefi gofal wedi eu profi a 429 o weithwyr cartrefi gofal.

29 Ebrill 2020 – datganiad y Gweinidog Iechyd ar gefnogi gofal cymdeithasol yn ystod yr achos coronafeirws – mae sôn ynddo am brofi.

2 Mai 2020 - Datganiad ysgrifenedig: COVID a BAME – mesurau i ddiogelu'r gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol – asesiadau risg a dull gofalus

Datganiad ysgrifenedig ar Gartrefi Gofal – profion i rai â symptomau yn unig – nid yw'r dystiolaeth yn dangos yr angen i brofi rhai heb symptomau. Hefyd, fodd bynnag – "Yn achos cartrefi gofal, lle mae nifer o bobl hŷn yn cyd-fyw yn agos, a lle mae gan sawl un ohonynt gyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, os bydd canlyniadau'r profion yn bositif, dylem dybio – a chymryd camau gweithredu – fel petai pawb yn y cartref wedi cael canlyniad positif."

16 Mai 2020 – Datganiad yn cadarnhau bod profi yn cael ei ymestyn i

gynnwys pob cartref gofal a chyhoeddwyd diweddariad – yn datgan fod y newid yn deillio o newid yn y cyngor gwyddonol.

5 Mehefin 2020 – Cyhoeddiad bod staff cartrefi Gofal i gael taliad ychwanegol o £500

16 Mehefin 2020 – Cyhoeddiad bod cartrefi Gofal ledled Cymru yn elwa ar ddyfeisiadau digidol sy'n cael eu dosbarthu iddynt fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i helpu preswylwyr i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, ac i gynorthwyo ag ymgynghoriadau meddygol dros fideo.

18 Mehefin 2020 – Datganiad ysgrifenedig ar brofion mewn cartrefi Gofal – "Mae dros 1050 o gartrefi gofal cofrestredig ar gyfer oedolion yng Nghymru. Mae pob un o'n cartrefi gofal cofrestredig ar gyfer oedolion wedi cael cynnig profion ac mae'r gwaith profi bron wedi'i gwblhau. Rydym yn ymwybodol o 30 o gartrefi gofal lle mae'r gwaith profi yn dal i fynd rhagddo ac rydym yn gweithio'n agos gyda staff i gwblhau'r gwaith hwn cyn gynted â phosibl. . . Mae wedi bod yn dasg aruthrol i roi'r rhaglen hon ar waith, gan gwblhau dros 51,000 o brofion erbyn 14 Mehefin – 22,887 o brofion ar breswylwyr cartrefi gofal a 28,781 o brofion ar staff. O'r nifer hwn, mae 5% o breswylwyr a 4% o staff wedi cael prawf positif ac rydym yn cymryd pob cam posibl i sicrhau bod mesurau rheoli haint cadarn ar waith ym mhob cartref gofal i'w diogelu rhag y risg o niwed yn y dyfodol. Mae'n hanfodol ein bod ni'n wyliadwrus gan sicrhau bod cartrefi gofal yn cael eu diogelu rhag unrhyw achosion newydd, felly o 15 Mehefin bydd pob staff mewn cartrefi gofal yn cael cynnig prawf antigenau yn wythnosol am bedair wythnos."